OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2004 Rhif 2557 (Cy.228) (C.107)

TAI, CYMRU
YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL, CYMRU
LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Gorchymyn Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 (Cychwyn Rhif 2 ac Arbed) (Cymru) 2004

Wedi'i wneud - - 28 Medi 2004

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 93(2)(b) a 94(2) o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003(**1**), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi, dehongli a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 (Cychwyn Rhif 2 ac Arbed) (Cymru) 2004.

(2) Yn y Gorchymyn hwn—

(a) ystyr "y dyddiad cychwyn" ("*the commencement date*") yw 30 Medi 2004; a

(b) mae cyfeiriadau at adrannau ac Atodlenni, oni nodir yn wahanol, yn gyfeiriadau at adrannau o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 ac Atodlenni iddi(**1**).

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru.

Darpariaethau sy'n dod i rym ar y dyddiad cychwyn

2. Yn ddarostyngedig i'r arbedion yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn, daw'r darpariaethau a ganlyn i rym ar y dyddiad cychwyn—

(a) yn Rhan 2 (tai)—

(i) adran 13 (gwaharddebion yn erbyn ymddygiad gwrthgymdeithasol pan fydd landlordiaid cymdeithasol penodol yn gwneud cais amdanynt);

(**1**) 2003 p. 38.

(**1**) 2003 p. 38.

(ii) adran 14 ac Atodlen 1 (diogelwch deiliadaeth: ymddygiad gwrthygymdeithasol) (tenantiaethau isradd) i'r graddau y maent yn rhoi'r pwer i wneud rheoliadau;

(iii) adran 16 (achosion meddiannu: ymddygiad gwrthgymdeithasol); a

(iv) adran 17 (datganoli: Cymru);

(b) yn Rhan 9 (pwerau amrywiol) adran 91 (adran 222 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**2**): pwer arestio sydd ynghlwm wrth waharddeb).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**)

D. Elis-Thomas
28 Medi 2004 Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**2**) 1972 p.70.
(**3**) 1998 p.38.